**LC1167**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfnod o rybudd a ragnodir gan Reoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau 1986 (Rheoliadau 1986) trwy gwtogi'r cyfnod o rybudd mewn dau achos. Pan fydd awdurdod yn bwriadu symud cerbyd sy'n ymddangos i'r awdurdod yn adawedig ac yn y fath gyflwr ag y dylid ei ddinistrio, mae'r cyfnod hysbysu wedi ei gwtogi o 7 niwrnod i 24 awr. Os yw awdurdod wedi symud ymaith gerbyd, ond nad yw'r cerbyd yn y fath gyflwr ag y dylid ei ddinistrio ac wedi dod o hyd i'r perchennog, cwtogir y cyfnod pryd y mae'n ofynnol i'r perchennog symud y cerbyd o warchodaeth yr awdurdod o 21 niwrnod i 7 niwrnod.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Cafodd Rheoliadau 1986 eu gwneud yn Saesneg yn unig ac o ganlyniad, mae'r testun sy'n rhoi diwygiad ar waith yn cael ei ddrafftio yn Saesneg yn unig, heblaw am yr offeryn sy'n diwygio (fel yn yr achos hwn) sydd wedi ei ddrafftio yn ddwyieithog. Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2005, fel rhan o drafodaeth ehangach, edrychodd y Pwyllgor ar y defnydd o iaith rhyw benodol mewn offerynnau sy'n diwygio deddfwriaeth Saesneg sy'n dibynnu ar Ddeddf Ddehongli 1978 e.e. i gynnwys y ffurf fenywaidd ar eiriau pan gaiff y ffurf wrywaidd ei ddefnyddio. Roedd y Pwyllgor o'r farn, er bod y defnydd o iaith rhyw

benodol yn neddfwriaeth y Cynulliad sy'n diwygio deddfwriaeth o'r fath yn cynnig drafft sy'n dderbyniol yn gyfreithiol, y dylid defnyddio iaith niwtral yn holl offerynnau'r Cynulliad. O ganlyniad mae rheoliad 2 (3) yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(vii) oherwydd ei fod yn cynnwys iaith rhyw benodol h.y "... notice is served on him.". Gellir cywiro'r mater hwn trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 15 Tachwedd 2005